

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont
Menai, Ynys Môn a Gwynedd)
(Gwahardd Cerbydau a Beicwyr
Dros Dro) 2022

The A5 Trunk Road (Menai
Suspension Bridge, Anglesey and
Gwynedd) (Temporary Prohibition
of Vehicles and Cyclists) Order
2022

Gwnaed 28 Tachwedd 2022

Yn dod i rym 2 Rhagfyr 2022

Made 28 November 2022

Coming into force 2 December 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A5 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Rhagfyr 2022.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (Menai Suspension Bridge, Anglesey and Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles and Cyclists) Order 2022 and this Order comes into force on 2 December 2022.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag asesu diogelwch y ffordd a gwneud unrhyw waith sy'n ofynnol mewn cysylltiad â hynny, a

Interpretation

2. In this Order—

"exempted person" ("*person esempt*") means any person proceeding by foot along the footway of the length of the trunk road known as the Menai Suspension Bridge that extends from Anglesey to Gwynedd;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys yn ystod unrhyw gyfnod y mae Pont Britannia ar gau i draffig yn ddarostyngedig yn achos y cerbydau brys hynny i'r amodau a ganlyn—

- i. Uchafswm pwysau'r cerbyd fydd 7.5 tunnell,
- ii. Dim ond un cerbyd ar y tro fydd yn cael croesi Pont Menai,
- iii. Rhaid cadw o fewn cyflymder uchaf o 20 milltir yr awr, a
- iv. Ni chaniateir brecio'r cerbyd yn sydyn ac eithrio mewn argyfwng;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 2 Rhagfyr 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi; ac

ystyr “person esempt” (“*exempted person*”) yw unrhyw berson sy'n cerdded ar droetffordd y darn o'r gefnffordd o'r enw Pont Menai sy'n ymestyn o Ynys Môn i Wynedd.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Pont Menai sy'n ymestyn o Ynys Môn i Wynedd.

4. Ni chaiff neb ac eithrio person esempt, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Pont Menai sy'n ymestyn o Ynys Môn i Wynedd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Pont Menai sy'n ymestyn o Ynys Môn i Wynedd.

Cymhwys

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal gorchymyn presennol dros dro

7. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2022 (O.S. 2022 Rhif 719 (Cy. 159)) wedi ei atal dros dro yn ystod cyfnod y gwaith.

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means

(a) any vehicle being used in connection with the assessment of the safety of the road and the carrying out of any works required in connection thereto, and

(b) any vehicle being used by the emergency services during such period as the Britannia Bridge is closed to traffic subject in the case of such emergency vehicles to the following conditions—

- i. The maximum vehicle weight shall be 7.5 tonnes,
- ii. Only one vehicle at a time shall be permitted to cross the Menai Suspension Bridge,
- iii. A maximum speed of 20 miles per hour shall be observed, and
- iv. There shall be no sudden braking of the vehicle except in an emergency;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A5 London to Holyhead trunk road; and

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 2 December 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road known as the Menai Suspension Bridge that extends from Anglesey to Gwynedd.

4. No person other than an exempted person may, during the works period, proceed along the length of the trunk road known as the Menai Suspension Bridge that extends from Anglesey to Gwynedd.

5. No person may, during the works period, ride any pedal cycle along the length of the trunk road known as the Menai Suspension Bridge that extends from Anglesey to Gwynedd.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

28 Tachwedd 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Suspension of existing order

7. The A5 Trunk Road (Menai Suspension Bridge, Anglesey and Gwynedd) (Temporary Prohibition of Large Vehicles) Order 2022 (S.I. 2022 No. 719 (W. 159)) is suspended during the works period.

Duration of this Order

8. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the

28 November 2022

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government